EISTEDDFOD
Wrecsam
2–9 Awst 2025









# Pentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Pecyn gwybodaeth
2025











- **Dyddiad: 2-9 Awst (stondinau i agor am 10:00 ddydd Sadwrn 2 Awst)**
- **Lleoliad: Wrecsam**

## Cefndir

Yr Eisteddfod yw'r ŵyl fwyaf yng Nghyrmu ac mae'nun o wyliau diwylliannol mwyaf Ewrop, gyda bron i 850 mlynedd o draddodiad a hanes.

Rydyn ni'n ddathliad o'n hiaith a'n diwylliant, a chynhelir popeth ar y Maes yn y Gymraeg, Gan ddenu dros 170,000 o ymwelwyr yn flynyddol, rydyn ni'n teithio o amgylch Cymru gan ymweld ag ardal wahanol bob blwyddyn.

Mae Gwyddoniaeth a Technoleg wedi bod yn rhan greiddiol o'r Eisteddfod ers dros 50 mlynedd. Mae'n gyfle i ddathlu'r datblygiadau diweddaraf ym maes STEAM yn y Gymraeg ac ysbrydoli pobl o bob oed mewn awyrgylch gyfeillgar, groesawgar a chynhwysol.

## Maes 2025

Mae'r Maes eleni ar gyrion dinas Wrecsam, ar dir amaethyddol braf a gwastad. Bydd y Pentref mewn rhan amlwg o'r Maes ac yn ardal liwgar sy'n adloniannol ac addysgol yn ôl yr arfer.

Rydyn ni a'n pwyllgor lleol yn cadarnhau rhaglen y Pentref ar hyn o bryd, felly os oes gennych chi unrhyw syniadau am weithgareddau neu ddigwyddiadau difyr sy'n hyrwyddo elfennau STEAM, cysylltwch â ni i drafod.

## Presenoldeb yn y Pentref

Mae gennym le i amryw o gytiau pren yn y Pentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg eleni, ac mae angen cwblhau ffurflen syml ar ein gwefan i wneud cais am le. Bydd y pwyllgor yn trafod pob cais.

Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i gwmnïau neu sefydliadau sy'n awyddus i gynnal gweithgareddau, sgyrsiau neu ddigwyddiadau arbennig ar eu stondin, ac sy'n rhannu'r weledigaeth o gyflwyno STEAM i gynulleidfaoedd o bob oed mewn ffordd liwgar, difyr a deniadol.

Cliciwch ar y cod QR ar ben y dudalen i wneud cais am gwt eleni.

## Costau

Cwt pren sengl 3m x 2.5m: £1,500 (+ TAW)
Trydan am y cyfnod: £392 (+ TAW)
Bwrdd a dwy gadair am y cyfnod: £73 (+ TAW)
Cyfanswm: £1,965 (+ TAW)





## Gosod eich stondin

Bydd modd gosod eich stondin ar y Maes yn ystod y cyfnodau canlynol:

- Dydd Mercher 30 Gorffennaf: 08:00 –18:00
- Dydd Iau 31 Gorffennaf: 08:00 –18:00
- Dydd Gwener 1 Awst: 08:00 –14:00

Yn dilyn llwyddiant cyflwyno'r system yn Rhondda Cynon Taf y llynedd, byddwn yn gweithredu system slot amser gosod ymlaen llaw, er mwyn ein galluogi i reoli nifer y cerbydau sy'n cyrraedd y Maes ar yr un pryd.

Byddwn hefyd yn gosod cyfyngder amser o dair awr i gerbydau ar y Maes ar gyfer dadlwytho, a bydd angen gwagio unrhyw gerbyd o fewn y slot a'i symud i'r maes parcio stondinwyr ar ddiwedd eich slot.

Bydd rhaid i unrhyw un sy'n bwriadu dod â cherbyd sy'n fwy na fan gyffredin gysylltu â ni ymlaen llaw i drefnu amser gosod. Byddwn yn cysylltu â phawb gyda manylion archebu slot mewn da bryd cyn diwedd Gorffennaf.

## Cerbydau ar y Maes

Bydd modd dod â char neu fan ar y Maes rhwng 06:00 – 07:30 yn y bore yn unig er mwyn llwytho a dadlwytho. Byddwch angen y tocyn cerbyd cywir er mwyn gwneud hyn a bydd angen dilyn canllawiau gyrru ar y Maes. Ni fyddwn yn caniatau unrhyw gerbydau ar y Maes ar unrhyw adeg ar wahan i'r cyfnodau a nodir uchod.

## Tynnu i lawr

Bydd modd tynnu eich stondin i lawr yn ystod y cyfnodau canlynol:

- Dydd Sadwrn 9 Awst: 18:00 –21:00
- Dydd Sul 10 Awst: 08:00 –18:00

Byddwn yn darparu mwy o wybodaeth am hyn yn agosach at yr amser.

## Rhaglen yr wythnos

Mae gan y Pentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg raglen ddifyr a diddorol o weithgareddau bob blwyddyn.

Yn gymysgedd o sgyrsiau, trafodaethau a sesiynau mwy ymarferol a hwyliog, mae cyflwyno elfennau STEAM mewn ffordd afaelgar a deniadol yn greiddiol i ethos y Pentref.

Mae dwy brif ardal yn rhan o'r Pentref, y Dôm a'r Babell Weithgareddau. Rydyn ni'n chwilio am syniadau creadigol a dyfeisgar i'w hychwanegu at ein rhaglen tan ddiwedd Ebrill. Gellir cynnig syniad am un digwyddiad neu gyfres o ddigwyddiadau sy'n rhedeg yn ddyddiol yn ystod yr wythnos.

## Nawdd

Eisiau arddangos eich brand yn y Pentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg eleni? Mae gennym amryw o gyfleoedd nawdd sy'n cynnig buddiannau ardderchog yn y Pentref drwy gydol yr wythnos.

Cysylltwch â ni am sgwrs a phecyn nawdd.  Bydd yr arian i gyd yn cael ei fuddsoddi ym Mhentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam.

Mae unrhyw nawdd dros £3,500 yn cael ei nodi fel nawdd corfforaethol gan yr Eisteddfod yn ganolog, gyda buddiannau ychwanegol ar gael ar draws y Maes.

## Medal Wyddoniaeth a Thechnoleg

Mae'r Fedal Wyddoniaeth a Thechnoleg yn gyfle i anrhydeddu unigolion sydd wedi creu argraff ym maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n un o'r anrhydeddau mwyaf a gynigir yn y Gymraeg i unigolion sy'n gweithio ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg.

Cliciwch ar y cod QR am ragor o wybodaeth ac i enwebu unigolyn.